**Hawdd ei Ddarllen - Dyfodol Gwasanaethau Fasgwlaidd yn Ne-ddwyrain Cymru**

DE-DDWYRAIN CYMRU
RHWYDWAITH **FASGWLAIDD**

## Beth yw gwasanaethau fasgwlaidd?

Mae gwasanaethau **fasgwlaidd** yn effeithio ar rwydwaith eich pibellau gwaed.  Gelwir y rhwydwaith yn eich system **fasgwlaidd** neu gylchredol.  Mae **gwasanaethau fasgwlaidd** yn ailadeiladu, rhyddhau neu'n dargyfeirio'r pibellau gwaed (rhoi llwybr arall iddynt) er mwyn adfer llif y gwaed i'r organau.

Gallech gael triniaeth untro i leihau'r risg i'ch bywyd, i helpu eich pibellau gwaed i weithio'n well, i atal strociau rhag digwydd, neu i leihau'r risg y bydd angen i chi gael trychiad.

Mae gwasanaethau fasgwlaidd hefyd yn darparu cymorth i gleifion sydd â phroblemau eraill fel clefyd yr arennau.

Gall anhwylderau fasgwlaidd atal peth o'r gwaed neu'r holl waed sydd ei angen arnoch rhag cyrraedd eich aelodau, eich ymennydd neu'ch organau eraill.  Gall hyn achosi poen wrth gerdded neu strociau. Gallant beri i chi golli gwaed yn sydyn, all beryglu eich bywyd.

Mae arbenigwyr fasgwlaidd hefyd yn gweithio gyda thrawma mawr, cardioleg, meddygaeth diabetig, meddygaeth strôc, dialysis yr arennau a chemotherapi, ynghyd â meysydd eraill.

## Pam ydyn ni'n siarad am wasanaethau fasgwlaidd?

Mae llawer o heriau sy'n wynebu'r gwasanaethau hyn, gan eu gwneud yn anodd eu cynnal ym mhob un o'r safleoedd ysbyty presennol. Mae'r rhain yn cynnwys mwy o bobl sydd angen y gwasanaeth. Gallai gwneud newidiadau olygu:

- Bod poblogaeth fwy yn cael ei helpu na'r hyn sy'n digwydd yn bresennol ar draws ein hysbytai
- Bod safonau ansawdd yn cael eu cyflawni
- Rhwyddineb cynyddol i ddenu a chadw'r gweithlu sydd ei angen
- Ni fydd gwasanaethau wedi'u gwasgaru'n rhy eang ar draws De-ddwyrain Cymru mwyach
- Canlyniadau gwell i gleifion

Rydym am gysylltu ein gwasanaethau mewn ffordd well, i gyfateb â'r rhai sydd eisoes ar waith yn Ne-orllewin Cymru a Gogledd Cymru.

**Pwy sy'n arwain y rhaglen?**

Mae'r rhaglen ymgysylltu hon yn cael ei harwain ar y cyd gan y sefydliadau iechyd sydd angen gwasanaethau fasgwlaidd ar gyfer eu hardaloedd. Ymhlith y rhain mae:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Yr ardaloedd yr effeithir arnynt yw:

- Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen
- Caerdydd a Bro Morgannwg
- Rhondda Cynon Taf a Merthyr (mae Pen-y-bont ar Ogwr yn rhan o rwydwaith De-orllewin Cymru)

- De Powys (caiff rhannau eraill o Bowys eu gwasanaethu gan rwydweithiau'r De-orllewin/Gogledd Cymru yn ogystal â rhwydweithiau yn Lloegr)

## Ffocws y rhaglen ymgysylltu hon

Rydym am siarad â phobl ar draws De-ddwyrain Cymru am y ffordd y caiff gwasanaethau fasgwlaidd eu darparu yn y dyfodol.

I wneud hyn, byddwn yn rhannu gwybodaeth am y canlynol:

- Beth yw gwasanaethau fasgwlaidd
- Pwy allai fod angen gofal fasgwlaidd
- Sut y caiff gwasanaethau fasgwlaidd eu darparu nawr
- Yr heriau presennol ar gyfer gwasanaethau fasgwlaidd
- Sut rydym yn gobeithio delio â'r heriau hyn
- Manteision ac anfanteision unrhyw gynlluniau yn y dyfodol

## Pwy sydd angen gwasanaethau fasgwlaidd?

Gallai fod y canlynol yn berthnasol i bobl sydd angen gwasanaethau fasgwlaidd:

- Gallent fod wedi cael strôc neu mewn perygl o gael strociau pellach
- Pibellau gwaed (rhydweľïau) wedi'u rhwystro yn y coesau, sy'n achosi poen, a allai waethygu a golygu bod perygl bod angen trychu'r goes
- Chwydd yn wal prif rydweli'r corff (pibell waed) y mae angen ei atgyweirio
- Rhwystrau rhydweľïol na chânt eu trin neu na ellir eu trin sy'n golygu bod angen trychiad arnynt

Cynhelir oddeutu 1300 o apwyntiadau neu lawdriniaethau bob blwyddyn yn ardal De-ddwyrain Cymru

**Sut y caiff gwasanaethau eu darparu nawr?**

Darperir gwasanaethau o

- Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd
- Ysbyty Brenhinol Morgannwg, Llantrisant*
- Ysbyty Athrofaol y Faenor, Cwmbrân

*Ar hyn o bryd, mae preswylwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn cael eu gweld naill ai ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan neu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Cynllun tymor byr yw hwn nes bod cynllun tymor hir yn cael ei lunio.*

**Sut mae gwasanaethau'n perfformio?**

Caiff pa mor dda y mae ein gwasanaethau'n perfformio ei adrodd gan y Gofrestrfa Fasgwlaidd Genedlaethol. Maent yn adrodd yn erbyn 5 maes allweddol:

- **Ymlediad aortaidd yn yr abdomen** yw chwydd yn yr **aorta**, prif wythïen y gwaed sy'n rhedeg o'r galon i lawr drwy'r frest a'r stumog
- Mae **endarterectomi carotid** yn llawdriniaeth i ryddhau'r rhydweli garotid
- Mae **llawdriniaeth rhydwelïol ymylol** yn ailgyfeirio'r cyflenwad gwaed o amgylch pibell waed sydd wedi'i rhwystro yn un o'ch coesau
- Llawdriniaeth yw **angioplasti** i agor pibellau gwaed sydd wedi culhau neu wedi'u rhwystro sy'n cyflenwi gwaed i'ch coesau

- Mae **llawdriniaeth fawr i drychu aelodau isaf y corff** yn golygu tynnu coes sydd wedi'i niweidio yn llawn neu'n rhannol, os nad oes modd iddo wella

**Mae ein meddygon wedi bod yn siarad am y gwasanaethau ers peth amser...**

"Rydym yn gwneud yn iawn o ran y canlyniadau, ond credwn y gallem wneud yn well drwy newid y ffordd y caiff ein gwasanaethau eu trefnu."

"Byddai datblygu trefniant ar sail rhwydwaith ar gyfer gwasanaethau fasgwlaidd yn sicrhau bod De-ddwyrain Cymru yn unol â rhannau eraill o Gymru."

"Nid oes gennym y nifer iawn o bobl i'w trin er mwyn cadw'r sgiliau sydd eu hangen arnom drwy weithio ar wahân."

"Byddai'n well pe gallem wneud yr holl lawdriniaethau mewn un lle er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r gweithlu a chadw'r lefel iawn o sgiliau."

**Yn wir, mae eu trafodaethau yn mynd nôl mor bell â 2014...**

Gan ystyried canllawiau cenedlaethol ac arfer gorau, gwnaethant edrych ar y ffordd orau o drefnu gwasanaethau.

Gwnaethant asesu'r holl opsiynau posibl yn erbyn y canlynol:

- Ansawdd a Diogelwch (blaenoriaeth uchaf)
- Derbynioldeb (pa mor gyfforddus oedd pobl â'r newidiadau)
- Addasrwydd strategol (pa mor dda mae'n cyd-fynd â nodau eraill yr ysbytai hyn)
- Cynaliadwyedd (y gallu i'r gwasanaethau fod yn addas at y diben ar hyn o bryd ac ar gyfer y dyfodol)

- Mynediad (pa mor hawdd fydd hi i bobl ddefnyddio'r gwasanaethau hyn)
- Cyflawniad (pa mor hawdd y gallwn wneud iddo ddigwydd)

**Daethant i gytundeb...**

Y ffordd orau o ddarparu gwasanaethau fasgwlaidd yn y dyfodol fyddai drwy fodel prif ganolfan a lloerennau.

- Byddai hyn yn golygu y caiff yr holl brif lawdriniaethau fasgwlaidd eu gwneud mewn un ysbyty
- Ni fyddai'n atal pobl rhag mynd i'w hysbytai lleol ar gyfer unrhyw waith/cyngor cyn llawdriniaeth neu ar ôl y llawdriniaeth ar gyfer prosesau adfer ac adsefydlu
- Byddai'n golygu'r defnydd gorau o sgiliau a staff
- Yn bwysicaf, byddai'n golygu gwell canlyniadau i gleifion

**Ble y gellid lleoli'r prif ganolfan?**

Mae llawer o bethau i'w hystyried sy'n cynnwys yr angen i ystod o wasanaethau eraill fod ar yr un safle (er enghraifft, gwasanaethau trawma mawr).

Y lle gorau am brif ganolfan yw Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd

**Beth am y lloerennau?**

Caiff ysbytai lloeren eu cynnal yn:

- Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Athrofaol y Faenor
- Ysbyty Brenhinol Morgannwg

- Ysbyty Athrofaol Llandochau ac Ysbyty Athrofaol Cymru

Parheir i gynnal gwasanaethau adsefydlu yn yr holl gymunedau ac mewn ysbytai lleol ar draws y rhanbarth.

**Dweud eich dweud**

Hoffem glywed eich safbwyntiau.  Os hoffech roi adborth cliciwch yma i gwblhau'r arolwg.

Neu, gallwch lenwi ffurflen yr arolwg yn y ddogfen gryno a'i hanfon atom:

- Gallwch ei sganio, neu dynnu llun o ansawdd da a'i anfon dros e-bost i sewales.vascular@wales.nhs.uk
- Neu anfonwch y ffurflen drwy'r post at y cyfeiriad isod:

ENGAGE WITH US

Woodland House

Maes-y-coed Road

Cardiff

CF14 4HH